I'w ryddhau ar unwaith: Dydd Mawrth 29 Tachwedd 2011

CYMUNEDAU CYMRU AR Y SGRÎN FAWR GYDAG ARIAN I BAWB

Bydd prosiectau ledled Cymru'n ceisio darganfod y cynhyrchwyr ffilm neu gyflwynwyr radio enwog nesaf diolch i dros £230,000 a ddyfarnwyd i grwpiau cymunedol drwy raglen Arian i Bawb y Gronfa Loteri Fawr heddiw.

At ei gilydd bydd **58** o brosiectau cymunedol ledled Cymru'n rhannu'r **£236,306** a ddyfarnwyd o dan rownd ddiweddaraf y rhaglen grantiau bach, **Arian i Bawb (rhestr lawn y dyfarniadau ar ddiwedd y datganiad).**

Gyda'r **£5,000** a ddyfarnwyd iddi, bydd **Bydd Ysgol Gynradd Nantgaredig** yn **Sir Gâr** yn dechrau clwb ffilmiau cymunedol i hwyluso cysylltiadau rhwng disgyblion a'r gymuned leol. Bydd rhan o'r arian yn talu am gostau hurio a phrynu camerâu fideo a chyfarpar ffilmio. Mewn prosiect sy'n cwmpasu **Sir Gâr** i gyd, bydd **Llanelli town.com** yn sefydlu gorsaf deledu ar-lein i alluogi'r grŵp i greu ffilmiau cymunedol, amlygu prosiectau lleol a darparu hyfforddiant cyfryngau gwerthfawr i wirfoddolwyr. Bydd y grant hwn o **£4,958** yn ariannu camerâu a chamerâu fideo, meddalwedd, systemau golygu, goleuadau ar gyfer stiwdio a recordydd digidol. Ac yn **ne-ddwyrain Cymru** bydd **Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân** yn helpu pobl ifanc i ddatblygu eu gorsaf radio eu hunain er budd y gymuned yn **Nhorfaen**. Bydd eu dyfarniad o **£4,559** yn ariannu cyfarpar cyfrifiadurol a radio.

Mae prosiectau eraill yn amlygu'r amrywiaeth o bethau y gall Arian i Bawb ei ariannu. Bydd y **Clwb Hwyl i Blant (Y Rhyl a'r Cylch)** yn **Sir Ddinbych** yn gwario eu **£5,000** ar hyfforddi arweinwyr ychwanegol i weithio gyda phobl ifanc ag ystod helaeth o anghenion arbennig, a bydd **Ynys Môn Mind** yn defnyddio eu **£5,000** i gynnal cyrsiau **Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl** a gweithdai stigma i bobl ifanc ar draws Ynys Môn. Ac yng **Nghwm Cynon**, **De Cymru**, bydd **FADS A FAMILY SERVICE** ym Mhenywaun yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ddatrys problemau anodd sy'n effeithio ar eu bywydau.

Meddai **Gareth Williams, Rheolwr Rhaglen Arian i Bawb y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru**: “Mae Arian i Bawb yn cael effaith gadarnhaol ledled Cymru. Mae'r arian yn helpu sefydlu grwpiau, cymdeithasau a chlybiau, gan hyrwyddo dysgu, cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli a helpu adeiladu cymunedau cryfach.”

Mwy i ddilyn..... 1 o 5

Gellir lawrlwytho ffurflen ymgeisio'r rhaglen, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ei chwblhau a'i dychwelyd yn uniongyrchol drwy e-bost i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae hefyd ar gael ar ffurf copi caled.

Mae ffurflenni ymgeisio ar gael drwy fynd i www.arianibawb.org.uk neu ffonio 0845 4 10 20 30.

Rhestr lawn y dyfarniadau

Mudiad	Lleoliad	Dyfarniad
Clwb Corn Hir	Ynys Môn	£4,162
Cymdeithas Pensiynwyr Hilltop	Blaenau Gwent	£5,000
Go out and Learn IT (GOAL-IT)	Blaenau Gwent	£4,967
Home-Start Blaenau Gwent	Blaenau Gwent	£4,390
Cyngor Lles Pobl Oedrannus Glyn Ebwy, Pwyllgor Ward Badminton	Blaenau Gwent	£5,000
Cymdeithas Rhandiroedd Ravenswood	Caerffili	£3,269
Cylch Meithrin Pontllanfraith	Caerffili	£5,000
Neuadd Gymunedol Kendon a Woodview	Caerffili	£5,000
Cymdeithas Rhandiroedd a Gerddi Cyfunedig Trethomas	Caerffili	£3,500
Crèche Cymunedol Llaneirwg	Caerdydd	£3,378
Ysgol Gynradd Nantgaredig	Sir Gâr	£5,000

Mudiad	Lleoliad	Dyfarniad
Crynhoi	Casnewydd	£1,340
Pobl yn Gyntaf Casnewydd	Casnewydd	£3,638
Bettws First	Casnewydd	£3,080
Canolfan Lles Pont Fyrddin	Sir Benfro	£5,000
Pwyllgor Rheoli Neuadd Eglwys Sant Edward	Powys	£4,956
Neuadd Pentref Llangrwyne	Powys	£5,000
Menter Iaith Maldwyn	Powys	£5,000
Llyfrgell Rydd a Sefydliad Trecynon	Rhondda Cynon Taf	£4,920
FADS A FAMILY SERVICE	Rhondda Cynon Taf	£4,999
Grŵp Trigolion Bryn Ivor	Rhondda Cynon Taf	£4,700
Clwb Cymdeithasol Canolfan Fanheulog	Rhondda Cynon Taf	£2,865

Mwy i ddilyn..... 2 o 4

Pwyllgor Gweithredol Felin-foel Cyf.	Sir Gâr	£5,000		Canolfan Gymunedol Affricanaidd	Abertawe	£4,980
Cylch Meithrin Bancyfelin	Sir Gâr	£4,110		Cymdeithas Gymunedol Treboeth	Abertawe	£5,000
Prosiect Canol Llanelli	Sir Gâr	£4,866		Canolfan Gymunedol Gelli-fedw	Abertawe	£5,000
Llanelli town.com	Sir Gâr	£4,958		Grŵp Rhieni a Phlant Bach Cwmrhydyceirw	Abertawe	£4,980
Cymuned Pennant Community Limited	Ceredigion	£2,324		Ymddiriedolaeth Neuadd Gymunedol Llanrhidian Cyf.	Abertawe	£3,724
Gofal Galar Cruse Cangen Ceredigion	Ceredigion	£2,652		Clwb Cymdeithasol Canolfan Tai Llys Gwernen	Abertawe	£1,500
Cymdeithas Tenantiaid Lloches Bro Teifi	Ceredigion	£2,754		Canolfan Gymunedol Llansamlet	Abertawe	£5,000
Clwb Hwyl i Blant (Y Rhyl a'r Cylch)	Sir Ddinbych	£5,000		Ysgol Gyfun Y Bontfaen	Bro Morgannwg	£4,426
Cymdeithas Clybiau Y Tu Allan i'r Ysgol Sir y Fflint	Sir y Fflint	£4,900		Cyngor Eglwys Blwyfol Llangrallo, Llangan ac Eglwys Fair y Mynydd	Bro Morgannwg	£4,740
Clwb Plant Kinnerton	Sir y Fflint	£4,698		Cymdeithas Gymunedol Y Rhws	Bro Morgannwg	£5,000
Clwb y Tu Allan i'r Ysgol Ysgol-y-Waun	Sir y Fflint	£3,394		Clwb Cymdeithasol Llys Gwyn James	Bro Morgannwg	£2,036
Ysgol Abercaseg	Gwynedd	£800		Dynion Tŷnewydd	Bro Morgannwg	£1,550
Ynys Môn Mind	Gwynedd	£5,000		Cymdeithas Hanes Pontnewydd	Torfaen	£1,600
2il Grŵp Sgowtiaid Merthyr Tudful	Merthyr Tudful	£2,832		Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân	Torfaen	£4,559

Mwy i ddilyn..... 3 o 4

AIB 4

Clwb y Tu Allan i'r Ysgol Heolgerrig	Merthyr Tudful	£3,722		Cymdeithas radio Amatur Cwmbrân a'r Cylch	Torfaen	£2,775
Canolfan Cyswllt Plant Aberhonddu	Sir Fynwy	£4,070		Crossroads in The Vale (EMI) Ltd	Cymru	£4,312
Action for Elders UK CIC	Castell-nedd Port Talbot	£4,880		Cangen Llys Nini RSPCA yn gwasanaethu Morgannwg Ganol a Gorllewin Morgannwg	Cymru	£5,000
Grŵp Gweithredu Trigolion Y Bryn (BRAG)	Castell-nedd Port Talbot	£5,000		Diverse Excellence Cymru	Cymru	£5,000

Mwy o Wybodaeth:

Swyddfa Wasg y Gronfa Loteri Fawr: 02920 678 207

Cyswllt y tu allan i oriau: 07760 171 431

Llinell Ymholiadau Cyhoeddus: 0300 123 0735 **Ffôn testun: 0845 6021 659**

Mae manylion llawn rhaglenni a dyfarniadau grant y Gronfa Loteri Fawr ar gael yn**:**
www.cronfaloterifawr.org.uk

Nodiadau i Olygyddion

- Yng Nghymru mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu bron £1 miliwn yr wythnos mewn arian y Loteri ar gyfer achosion da, sy'n golygu, ynghyd â dosbarthwyr eraill y Loteri, bod y rhan fwyaf o bobl ar draws Cymru o fewn ychydig filltiroedd i brosiect a ariennir gan y Loteri.
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr, dosbarthwr mwyaf y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da, wedi bod yn dosbarthu grantiau i feysydd addysg a'r amgylchedd ac achosion elusennol ers iddi ddod i fodolaeth ym mis Mehefin 2004. Fe'i sefydlwyd gan Senedd y DU ar 1 Rhagfyr 2006.
- Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, mae 28c o bob punt sy'n cael ei gwario gan y cyhoedd wedi mynd i achosion da. O ganlyniad i hyn mae dros £27 biliwn wedi'i godi a mwy na 330,000 o grantiau wedi'u dyfarnu ar draws meysydd y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau, iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Diwedd//
Cyhoeddwyd: 29-11-2011
WPN: 11-11-05